

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Wales Laser Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2022

Dyddiad cyhoeddi: 26 Gorffennaf 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill yn ôl y cais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymegol, teg ac yn cael ein llywio gan dystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom
2. Crynodeb o'r arolygiad
3. Yr hyn a ganfuom
 - Ansawdd profiad y claf
 - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
 - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth
4. Y camau nesaf

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C - Cynllun gwella

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wales Laser Clinic ar 25 Ebrill 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain yn y clinig a bod y prif ddrws wedi'i gloi pan oedd y clinig ar agor i gleifion.

Canfuom fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y clinig ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth, cyn ac ar ôl triniaeth, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd trefniadau addas ar waith i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod yr ymgynghoriad a thriniaethau. Fodd bynnag, rhaid i'r clinig weithredu polisïau ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Ysgrifennu polisïau ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun a chydraddoldeb ac amrywiaeth
- Darparu canlyniadau'r holl adborth y gofynnwyd amdano i gleifion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl ymatebion i holiaduron cleifion, ar draws pob maes, yn nodi profiad cadarnhaol i gleifion yn y clinig hwn.

Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Cawsom ein sicrhau bod y cleifion yn cael gofal unigol â ffocws a oedd wedi'i ddogfennu mewn cofnodion cleifion cywir a chynhwysfawr.

Canfuom fod y clinig yn cael ei redeg yn dda ac yn bodloni'r rheoliadau perthnasol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Roedd y peiriannau

laser yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr, ac roedd gan y rheolwr cofrestredig hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r peiriannau.

Roedd yr ystafell driniaeth wedi'i chyfarparu'n dda ac roedd yn amlwg yn lân ac yn daclus iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y gwiriadau gwifrau pum mlynedd perthnasol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.
- Ail-ysgrifennu'r polisi diogelu i adlewyrchu camau gweithredu a gofynion lleol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion cleifion yn darparu gwybodaeth dda am y cleifion a'u triniaethau.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac roedd yn meddu ar yr wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i gleifion a dangosodd ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth da.

Byddai'r weithdrefn gwyno sydd ar waith yn y clinig yn galluogi cwynion cleifion i gael eu trin yn effeithiol ac yn amserol. Roedd gan y clinig ystod o bolisiâu a gweithdrefnau ac roedd angen diweddarau rhai ohonynt a chynnwys rheolaeth briodol ar fersiynau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cadw pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn bwriadu cyflogi nyrs glinigol ychwanegol yn y flwyddyn nesaf a hefyd cyflogi un aelod o staff anghlinigol i helpu gyda marchnata a rheoli prosiectau.
- Mae'r clinig wedi cael offer laser ychwanegol i allu darparu triniaethau ychwanegol ac maent yn y broses o gofrestru a hyfforddi ar gyfer y peiriannau laser hyn.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch y cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sy'n ofynnol yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a ganfuom

Ansawdd profiad y claf

Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y clinig. Cafwyd cyfanswm o 22 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd pob ymateb ar draws pob maes yn nodi profiad claf cadarnhaol ymhlith y rhai a gwblhaodd holiaduron am y clinig hwn.

Gofynnwyd i gleifion raddio eu profiad cyffredinol o'r clinig yn yr holiadur. Dywedodd pob un o'r 22 a ymatebodd i'r holiadur fod y clinig yn 'dda iawn'. Yng ngeiriau'r cleifion:

“Pobl mor anhygoel a byddwn yn eu hargymell yn fawr.”

“Gwasanaeth anhygoel, cyfeillgar a gwnaethon nhw i mi deimlo'n gyfforddus.”

“Hapus iawn â'r gwasanaeth gwych.”

“Ardderchog, y lleoliad bob amser yn lân, gwasanaeth llawn gwybodaeth, defnyddiol iawn, dim byd yn ormod o drafferth.”

Urddas a pharch

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ymgynghoriadau cleifion bob amser yn cael eu cynnal yn yr ystafell driniaeth a bod pob un o'r cleifion yn cael eu gweld ar sail apwyntiad yn unig. Roedd prif ddrws y clinig yn cael ei gau pan fyddai cleifion yn y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y gallai claf ddod gyda hebryngwr neu berthynas am ran o'r driniaeth neu am y driniaeth gyfan.

Roedd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch. Roeddent hefyd yn cytuno bod mesurau'n cael eu cymryd i amddiffyn eu preifatrwydd a bod gweithdrefnau'n cael eu hesbonio drwy gydol y driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Darparwyd copi o'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben i ni gan y rheolwr cofrestredig, a oedd yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cytunodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a bod eu cwestiynau'n cael eu hateb.

Gwybodaeth a chydysyniad cleifion

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio i driniaeth a oedd wedi'u llofnodi gan y claf ac wedi'u cydlofnodi gan y gweithredwr golau pwls dwys / laser. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod cost unrhyw driniaeth wedi cael ei hegluro iddynt cyn cael y driniaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig i ni hefyd bod pob claf yn cael cyngor ôl-ofal ar lafar yn dilyn triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, casglwyd hanes y cleifion. Gwnaethom adolygu sampl o nodiadau cleifion a chanfod tystiolaeth o gadw cofnodion da. Cadwyd copïau caled o'r wybodaeth cyn triniaeth, cydsyniad a hanes meddygol. Roedd cofnodion triniaeth cleifion yn cael eu cadw ar-lein ar system cwmwl. Cawsom wybod mai meddalwedd rheoli practis ar gyfer clinigau ac ymarferwyr perthynol i iechyd a oedd yn bodloni gofynion rheoliadau diogelu data cyffredinol oedd y system.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y clinig yn agored i bawb a bod y cleifion i gyd yn cael eu trin yn gyfartal. Roedd y clinig wedi'i leoli ar y llawr daear gyda gris bach i mewn i'r man aros a'r ystafell driniaeth. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y clinig yn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o hyn cyn iddynt ymweld â'r safle. Roedd toiled ar y llawr daear ar gael i gleifion ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd polisïau ar waith ar gyfer gweithio unigol nac ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dywedodd pob un a ymatebodd eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir. Ni soniodd unrhyw un o'r cleifion a atebodd y

cwestiwn am wahaniaethu wrth geisio mynediad i'r clinig hwn neu wrth ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gallai cleifion roi adborth dienw am eu triniaeth yn y clinig. Cawsom wybod bod yr adborth yn cael ei ddefnyddio gan y clinig i weld sut yr oedd yn perfformio a sut y gellid ei wella. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw sylwadau adborth cyffredinol wedi'u harddangos yn y clinig. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r rheolwr cofrestredig yn ymateb yn uniongyrchol i unrhyw sylwadau uniongyrchol a wneir gan gleifion.

Cytunodd pob un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn hwn eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r clinig yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl eu triniaeth.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd tystiolaeth o brofi dyfeisiau cludadwy (PAT) cyfredol. Roedd asesiadau risg ar gael a oedd wedi'u cynnal gan gynghorydd amddiffyn rhag laserau (LPA), gyda thystiolaeth o adolygiad blynyddol. Gwelsom dystiolaeth o sawl polisi ar waith yn ymwneud ag iechyd a diogelwch. Roeddent yn cynnwys diogelwch tân, hylendid dwylo a pholisi diogelwch peiriannau. Roedd yna hefyd asesiadau risg gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac asesiadau risg COVID-19. Yn ogystal, roedd trefniadau ar waith ar gyfer diogelwch tân. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau'r llyfr cofnodion diogelwch tân ar gyfer pob un o'r gwiriadau diogelwch tân a gynhaliwyd.

Roedd yr adeilad i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd pob rhan o'r clinig yn ymddangos yn lân ac yn rhydd o beryglon baglu. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn fodern o ran gwedd ac wedi'u cyfarparu'n dda.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig weithdrefnau addas i'w dilyn mewn achos o argyfwng, megis llewyg claf. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd yn ymarferydd cyffredinol ac roedd yn meddu ar hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol cyfredol fel rhan o'r rôl hon. Gwelsom fod bocs cymorth cyntaf ar gael a bod yr eitemau o fewn y bocs yn gyfredol.

Roedd y gwiriad gwifrau bob pum mlynedd yn hwyr i'w gwblhau a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn ei chael yn anodd cael gwasanaeth person cymwys i gwblhau'r gwiriadau.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y clinig bolisi atal a rheoli heintiau a pholisi hylendid dwylo, a oedd yn hwyr i'w hadolygu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn glanhau'r safle bob dydd yr oedd y practis ar agor. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod y gwiriadau glanhau hyn wedi'u cynnal. Dywedodd pob un o'r 22 o ymatebwyr fod y clinig yn 'lân iawn' ac roeddent yn cytuno bod y mesurau rheoli heintiau COVID-19 yn cael eu dilyn, lle bo'n briodol.

Disgrifiwyd y newidiadau penodol a wnaed oherwydd COVID-19 gan y rheolwr cofrestredig. Roeddent yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, glanhau, cyfarparu diogelu personol, a rhagsgrinio ar gyfer COVID-19.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd y clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth i oedolion dros 18 oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y cydymffurfiwyd â hyn ac nad oedd plant yn cael mynd i'r ystafell driniaeth o dan unrhyw amgylchiadau. Bu achlysuron pan oedd plant o oedran priodol wedi cael aros yn y dderbynfa.

Gwelsom dystiolaeth fod lefel briodol o hyfforddiant diogelu wedi'i chwblhau gan y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, roedd y polisi diogelu yn cyfeirio at y camau a fyddai'n cael eu cymryd gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn hytrach na beth i'w wneud yn y clinig.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y peiriannau golau pwls dwys / laser wedi cael eu gwasanaethu a'u graddnodi'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn perfformio'n gyson ac yn ôl y disgwyl. Roedd protocolau triniaeth feddygol hefyd ar waith.

Roedd contract ar waith gyda chynghorydd amddiffyn rhag laserau i ddarparu cyngor diogelwch arbenigol ar y defnydd gweithredol o'r peiriannau golau pwls dwys / laser o ddydd i ddydd. Roedd rheolau lleol hefyd ar waith a oedd wedi'u hadolygu gan y cynghorydd amddiffyn rhag laserau yn unol ag amodau cofrestru'r clinig gydag AGIC.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod cyfarpar diogelu'r llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwr laser, ac roedd hyn yn cynnwys cyfarpar diogelu drwy flocio'r llygaid. Roedd y cyfarpar diogelu'r llygaid mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio â'r rheolau lleol.

Roedd clo wedi'i osod yn yr ystafell driniaeth ac roedd arwydd 'peidiwch â mynd i mewn' yn cael ei arddangos i atal mynediad heb awdurdod tra'r oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Gwnaethom gadarnhau bod allweddi'r peiriant laser yn cael eu cadw'n ddiogel mewn blwch dan glo pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol wedi'i llofnodi cyn eu triniaeth gychwynnol a bod hon yn cael ei gwirio am newidiadau mewn unrhyw apwyntiad dilynol. Dywedodd pob un o'r 22 a ymatebodd eu bod

wedi llenwi ffurflen hanes meddygol neu y gwiriwyd eu hanes meddygol cyn cael unrhyw driniaeth.

Roedd system addas ar waith i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd cofnodion cleifion. Canfuom fod gwybodaeth ysgrifenedig am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Roedd cofnodion cleifion yn y cwmwl yn cael eu cadw ar system sy'n cydymffurfio â data. Cofnodwyd gwybodaeth ddigonol i ddangos y driniaeth a gafwyd. Roedd mynediad at y cofnodion yn gyfyngedig i'r rheolwr cofrestredig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y clinig yn cael ei redeg o ddydd i ddydd gan y rheolwr cofrestredig, sef y perchennog a'r unig weithredwr laser awdurdodedig. Gwelsom dystysgrif gofrestru AGIC gyfredol yn cael ei harddangos a bod gan y clinig dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol.

Roedd gan y clinig ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r rhain yn gyfredol ac nid oeddent wedi'u hadolygu'n rheolaidd. Nid oedd y dyddiadau rheoli fersiwn ac adolygu priodol ychwaith wedi'u rhestru ar yr holl weithdrefnau. O gyfweld â'r rheolwr cofrestredig, roedd yn amlwg eu bod wedi ymrwymo i weithio gyda chleifion i gyflawni'r canlyniadau dymunol ac i reoli disgwyliadau drwy gydol cwrs triniaeth cleifion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion a phryderon ffurfiol neu anffurfiol sy'n dod i law yn y clinig gan gleifion. Ni nodwyd unrhyw bryderon na chwynion yn y llyfrau cofnodion amrywiol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rheolwr cofrestredig wiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses sefydlu a fyddai'n digwydd yn y clinig pan fyddai aelodau staff newydd yn cael eu recriwtio.

Cynllunio a hyfforddi'r gweithlu

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwyr ar ddefnyddio'r peiriant laser.

Dywedwyd wrthym hefyd bod y rheolwr cofrestredig yn ei rôl fel ymarferydd cyffredinol wedi cael hyfforddiant gorfodol ar gynnal bywyd sylfaenol, hyfforddiant tân, iechyd meddwl a diogelu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig hefyd eu bod wedi cael eu hail-ddilysu fel meddyg yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd polisi recriwtio a dethol ar waith yn ôl y rheolwr cofrestredig yn barod ar gyfer cynlluniau recriwtio'r dyfodol. Mae'r clinig yn ystyried cyflogi nyrs glinigol ychwanegol yn y flwyddyn nesaf a hefyd un aelod o staff anghlinigol i helpu gyda gwaith marchnata a rheoli prosiectau.

Roedd offer laser ychwanegol wedi'i brynu'n ddiweddar i'w ddefnyddio yn y clinig. Roedd y clinig yn y broses o gofrestru'r cyfarpar hwn gydag AGIC a sicrhau'r hyfforddiant perthnasol ar ddefnyddio'r offer.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch y cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd ac/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wales Laser Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wales Laser Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 25 Ebrill 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y Swyddog cyfrifol gwasanaeth	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiâu'n cael eu hysgrifennu ar gyfer gweithio'n unigol a chydaddoldeb ac amrywiaeth.	Safon 8 Cynllunio a Darparu Gofal Safon 2 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 9	Creu'r polisiâu ar gyfer gweithio unigol a chydaddoldeb ac amrywiaeth.	Dr S Gumery 31 Awst 2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth o'r camau a gymerwyd yn dilyn adborth gan gleifion yn cael ei harddangos yn y clinig.	Safon 5 Ymgysylltu â Dinasyddion ac Adborth	Camau a gymerwyd ar ôl i adborth cleifion gael ei arddangos yn y clinig.	Dr S Gumery Cwblhawyd
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y gwiriadau gwifrau bob pum mlynedd yn cael eu cwblhau a'u bod yn gyfredol.	Safon 22 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Gwiriad gwifrau bob pum mlynedd wedi'i gwblhau a'i gadw'n gyfredol.	Dr S Gumery Cwblhawyd

	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 26			
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llyfr cofnodion diogelwch tân yn cael ei ddiweddarau a'i gadw'n gyfredol ar gyfer pob gwiriad diogelwch tân.	Safon 22 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 26	Llyfr cofnodion diogelwch tân yn cael ei gadw'n gyfredol ar gyfer pob gwiriad diogelwch.	Dr S Gumery	Cwblhawyd
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod tystiolaeth o'r glanhau a wnaed yn cael ei chofnodi a'i chadw ar ffeil.	Safon 13 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 15	Llyfr cofnodion glanhau ar waith i gofnodi amserlen lanhau a bydd hwn yn cael ei gadw ar ffeil.	Dr S Gumery	Cwblhawyd
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu yn cael ei ailysgrifennu i gynnwys y camau y mae angen eu cymryd yn y clinig ac yn lleol fel ei bod yn glir beth i'w wneud pe bai unrhyw bryder ynghylch diogelu.	Safon 11 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 16	Polisi Diogelu i'w ailysgrifennu i gynnwys camau y mae angen eu cymryd yn y clinig i adlewyrchu anghenion lleol pe bai unrhyw fater diogelu.	Dr S Gumery	31 Awst 2022
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda'r dyddiadau	Safon 7 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 - Rheoliad 9	Mae'r holl bolisiau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff y fersiynau priodol a'r dyddiadau adolygu eu rheoli a'u rhestru.	Dr S Gumery	O fewn wyth wythnos

rheoli fersiwn ac adolygu priodol wedi'u rhestru.				
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Dr S Gumery
Swydd: Rheolwr Cofrestredig
Dyddiad: 4 Gorffennaf 2022